Canllawiau drafft y Comisiwn Elusennau: elusennau a chyfryngau cymdeithasol

CYFLWYNIAD:

Crëwyd y canllawiau drafft ar gyfryngau cymdeithasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau (Saesneg yn unig) yn dilyn galw gan y sector gwirfoddol ledled y DU. Rydym yn falch o weld bod y canllawiau hyn yn cael eu hystyried gan y comisiwn gan ein bod yn gwybod bod hwn yn bwnc heriol i lawer o'n haelodau ac mae'n amlwg bod angen canllawiau ar sut i fynd ati i lunio polisi cyfryngau cymdeithasol.

Nid diben y canllawiau yw cyfyngu elusennau sy'n defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol ac ni fydd y cynnwys yn newid y gyfraith sydd angen i ymddiriedolwyr ei hystyried. Diben y canllawiau yw rhoi arweiniad i fudiadau sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol a rhoi dealltwriaeth well i ymddiriedolwyr o'u cyfrifoldebau a'r risgiau posibl.

Ar eu fformat presennol, mae'r canllawiau drafft yn mynd i'r afael â'r canlynol:

1. Sut i lunio polisi cyfryngau cymdeithasol
2. Rheoli'r risgiau posibl wrth bostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol
3. Ymgysylltu ar bynciau dadleuol
4. Ymgyrchu neu wneud gweithgareddau gwleidyddol ar gyfryngau cymdeithasol

5. Codi arian ar gyfryngau cymdeithasol
6. Cadw'n ddiogel ar-lein

YMATEB CGGC I'R YMGYNGHORIAD:

Cyhoeddodd CGGC ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r holiadur penodedig a ddarparwyd gan y Comisiwn. Mae ein hymateb llawn ar gael isod.

C1. Wedi darllen y canllawiau, pa mor eglur yw lefel y trosolwg sydd ei hangen ar ymddiriedolwyr o ran defnydd eu helusen o gyfryngau cymdeithasol?

Ymateb CGGC: Mae angen mwy o eglurder ar yr hyn a ystyrir yn risg lywodraethu pan ddaw hi i gyfryngau cymdeithasol. Gallai enghreifftiau helpu i ddangos pa fath o faterion sy'n weithredol a pha faterion sydd angen penderfyniad gan ymddiriedolwyr.

C2. A ydych chi'n credu bod y disgwyliadau a nodir yn y canllawiau ar lefel y trosolwg y dylai ymddiriedolwyr ei gael dros ddefnydd elusen o gyfryngau cymdeithasol yn rhesymol?

Ymateb CGGC: Nid oes digon o fanylion ar ba faterion y mae angen i ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau. Gallai hyn ddod yn dasg feichus a fyddai'n peri i bobl beidio â dod yn ymddiriedolwyr. Efallai y byddai'n fwy priodol nodi bod gan ymddiriedolwyr benderfyniadau i'w gwneud ar bolisi cyfryngau cymdeithasol i staff a bod ymddiriedolwyr dim ond yn cael eu gofyn wedyn i adolygu materion pan fydd cwynion yn dod i law a phan fydd tystiolaeth amlwg nad yw'r polisi yn cael ei ddilyn.

C3. A ydych chi'n credu bod y canllawiau yn ymdrin â'r holl faterion perthnasol y mae angen i elusennau feddwl amdanynt i'w helpu i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol?

Ymateb CGGC: Gallai elusennau gael eu hannog fwy i ddefnyddio'u llais ar gyfryngau cymdeithasol i ddweud eu dweud ar bynciau dadleuol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u dibenion elusennol. Hyd y gwelwn ni, nid oes digon o fanylder ar beth ddylai elusennau gael eu hannog i ddefnyddio'r platfformau ar eu cyfer a allai gyflwyno problemau. Dylai'r

canllawiau hefyd gyfeirio at yr heriau o ran trolio a chyfrifon ffug ar gyfryngau cymdeithasol. Byddai diffiniad o'r hyn a olygir wrth 'gyfryngau cymdeithasol' hefyd yn ddefnyddiol, e.e. a yw hyn yn cynnwys WhatsApp sy'n cael ei ddefnyddio mwy a mwy gan fudiadau i rannu negeseuon gyda'u defnyddwyr gwasanaethau.

C4. A yw'r hyn y mae'r canllawiau yn ei ddweud am ddefnydd personol unigolyn o gyfryngau cymdeithasol – waeth a yw'n ymddiriedolwr, yn gyflogai neu'n wirfoddolwyr – yn ddefnyddiol?

Dylai fod mwy o fanylion ar sut y gall elusennau ddiogelu eu staff yn ogystal â sicrhau bod eu staff yn rhannu safbwyntiau yn unol â'r mudiad. Mae angen mwy o eglurder ar rolau unigolion yn seiliedig ar a ydynt yn defnyddio eu platfformau cyfryngau cymdeithasol at ddibenion personol neu broffesiynol ac a yw eu cyfrifon yn breifat neu'n gyhoeddus. Mae perygl y gallai staff ac ymddiriedolwyr fod yn gyndyn i rannu unrhyw negeseuon i gefnogi eu helusen, a byddai hynny'n niweidiol i fudiadau sydd â chynulleidfaoedd targed sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyson. Dylid cael rhai canllawiau ar sut dylai elusennau fynd ati i oruchwylio sianelau cyfryngau cymdeithasol personol a dylid dangos ymddiried mewn staff sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i helpu i godi ymwybyddiaeth o nodau eu helusen. Mae perygl y gallai polisïau dresmasu ar ryddid unigolion i roi eu barn a'u hawl i breifatrwydd. Gallai fod yn fwy priodol awgrymu y dylai pob aelod o staff sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn rhannu negeseuon a allai effeithio ar yr elusen gael datganiad yn ei fywgraffiad sy'n nodi mai ei farn ef ei hun yw unrhyw farn a fynegir, ac yn ogystal â hyn, i sicrhau'n gyson bod pob aelod o staff yn deall polisi cyfryngau cymdeithasol ei fudiad, yr hyn sy'n dderbyniol i'r mudiad ac yna ymddiried yn y staff i lynu at y pethau hyn. Dylai mudiadau wedyn gael proses sydd wedi'i diffinio o fewn y polisi ar sut maen nhw'n ymdrin ag unrhyw gwynion ynghylch datganiadau dadleuol a wneir gan aelodau staff ar gyfryngau cymdeithasol os cânt eu hadrodd i'r elusen.

C5. O ganlyniad i ddarllen y canllawiau, pa mor hyderus fyddech chi eich bod yn gwybod beth i'w gynnwys mewn polisi cyfryngau cymdeithasol?

Ymateb CGGC: Mae angen mwy o fanylder ac eglurder yn y canllawiau o ran y pwyntiau uchod er mwyn galluogi elusennau i ddatblygu polisïau â phrosesau clir.

C6. Nodwch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych chi ar y canllawiau drafft:

Ymateb CGGC: Mae'n bwysig bod gan bob mudiad gwirfoddol sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol bolisi, ond mae'r canllawiau hyn yn debygol o effeithio'n anghymesur ar fudiadau llai gyda llai o gapasiti. Mae hefyd yn debygol o gynyddu llwyth gwaith cyrff seilwaith a fydd yn gorfod cynghori mudiadau ar hyn. Gallai gymryd peth amser i gyrff seilwaith addasu ar gyfer hyn, a byddai unrhyw gymorth ac arweiniad pellach i helpu cyrff seilwaith i ymdrin â'r ymholiadau hyn yn ddefnyddiol tu hwnt. Gallai'r canllawiau, fel ag y maent, beri i staff, ymddiriedolwyr a darpar ymddiriedolwyr beidio â bod eisiau defnyddio eu sianelau cyfryngau cymdeithasol i helpu i godi ymwybyddiaeth o waith eu mudiad. Gallai'r canllawiau hefyd rwystro elusennau rhag dweud eu dweud ar faterion ehangach nad ydynt o reidrwydd yn ymwneud â'u gwaith bob dydd, er enghraifft, rhoi sylwadau ar ddatblygiadau yn y newyddion fel y ddaeargryn yn Nhwrci a Syria neu'r Rhyfel yn Wcráin. Byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion ar sut i ddirprwyo penderfyniadau, a chael rhai enghreifftiau sy'n seiliedig ar fudiadau o wahanol faint, er mwyn helpu i roi arweiniad i elusennau ar ddatblygu eu polisi cyfryngau cymdeithasol. Byddai cyflwyno templed neu bolisi enghreifftiol ar gyfer mudiadau o faint amrywiol fel rhan o'r canllawiau yn ddefnyddiol tu hwnt.

CRYNODEB A THRAFODAETH BELLACH:

Rydym yn croesawu cyflwyniad y canllawiau ar gyfer cyfryngau cymdeithasol gan y Comisiwn Elusennau yn fawr iawn, ac rydym yn credu bod penawdau'r adrannau yn adlewyrchu'r heriau a wynebir gan y sector. Credwn fod y drafft yn bwynt dechrau da, ond hoffem weld mwy o fanylion ac enghreifftiau i helpu i arwain defnyddwyr. Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â'r Comisiwn Elusennau ac yn hapus i weithio gyda nhw ar ddatblygu'r canllawiau hyn. Mae cyfryngau cymdeithasol yn adnodd gwych i helpu elusennau i rannu gwybodaeth am eu gwaith, felly

byddem yn hoffi gweld y canllawiau yn annog mudiadau, eu staff a'u hymddiriedolwyr i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, gan fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau a'r risgiau ar yr un pryd.

Anogwn ein haelodau a'r sector ehangach yng Nghymru i gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau yr hoffech chi eu rhannu mewn perthynas â'r canllawiau cyfryngau cymdeithasol. Cysylltwch ag Elen Notley yn enotley@wcva.cymru.

Elen Notley
Rheolwr Marchnata ac Aelodaeth
Mawrth 2023
enotley@wcva.cymru